Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Ordinhad 15 - Sêl Gyffredin y Brifysgol

15.1 Caiff yr holl weithredoedd, offerynnau a dogfennau ysgrifenedig y mae angen gosod Sêl Gyffredin y Brifysgol arnynt, ac awdurdodiad y trafodion a gynhwysir ynddynt, eu cymeradwyo a'u hardystio drwy lofnod dau o swyddogion awdurdodedig y Brifysgol, ar ran y Cyngor. Cyflwynir adroddiad o'r trafodion a'r selio i'r Cyngor yn flynyddol.

15.2 Y swyddogion awdurdodedig fydd unrhyw ddau o'r canlynol: Cadeirydd y Cyngor, y Trysorydd, yr Is-ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu, y Profost, y Cyfarwyddwr Cyllid ac unrhyw un o'r Dirprwy Is-gangellorion.

15.3 Fel rheol, caiff dogfen ei selio a'i chymeradwyo cyn gynted ag y bydd hynny'n ofynnol yn ôl amgylchiadau, ond gall amgylchiadau eithriadol, i'w pennu gan yr Ysgrifennydd i'r Cyngor, gyfiawnhau awdurdodi'r selio mewn cyfarfod o'r Cyngor.

15.4 Yr Ysgrifennydd i'r Cyngor fydd yn cadw'r Sêl.